

TEITL Y SWYDD Uwch Weithiwr Cymorth Clinigol Radioleg
BAND Band 3

Crynodeb o'r Swydd

- Ymgymryd yn annibynnol â thasgau clinigol uniongyrchol a ddirprwyir gan staff cofrestredig ar draws y disgyblaethau delweddu lluosog i hwyluso gwasanaethau radioleg effeithlon.
- Gweithio ochr yn ochr â staff cofrestredig i gynorthwyo gydag archwiliadau fel allsugnadau gyda nodwydd mân, biopsïau, archwiliadau fflworosgopeg.
- Ymgymryd ag amrywiaeth o ddyletswyddau gweinyddol a chlercol sy'n ofynnol yn y rôl megis archebu a threfnu archwiliadau dan gyfarwyddyd staff cofrestredig.

Yn gyfrifol i'r canlynol:

Yn adrodd i'r:

Yn atebol i'r:

Yn atebol yn broffesiynol i'r:

Cyfrifoldebau a Dyletswyddau

Mae'r Uwch Weithiwr Cymorth Clinigol Radioleg (SRCSW) yn rhan o dîm amlddisgyblaethol, sy'n ymgymryd ag ystod eang o ddyletswyddau clinigol a gweinyddol i gefnogi'r broses o ddarparu archwiliadau a thriniaethau radioleg.

Trwy ddysgu achrededig a hyfforddiant mewnol, bydd yn cael eu cefnogi i ennill yr wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i ddarparu agweddau dirprwyedig ar ofal clinigol yn yr adran radioleg, megis paratoi offer ar gyfer lleoliad troli cymhleth, gosod a thynnu canwlâu mewnwythiennol, gweinyddu sylweddau cyferbyniad trwy'r geg, a chynorthwyo staff cofrestredig i berfformio archwiliadau aseptig fel allsugnadau gyda nodwydd mân a phigiadau cyhyrsgerbydol. Bydd yn cyflawni amrywiaeth o ddyletswyddau i gynorthwyo cleifion yn uniongyrchol, gan gefnogi darparu lefelau uchel cyson o ofal a gwasanaethau effeithlon.

Bydd yn darparu ystod o ddyletswyddau cadw tŷ, gweinyddol a chlercol yn ôl yr angen gan gynnwys cyfarch cleifion, cynnal gwiriadau adnabod cychwynnol a holiaduron diogelwch cleifion, gan sicrhau bod amgylchedd glân yn cael ei gynnal a chefnogi dysgu a datblygiad cydweithwyr iau.

Cynllunio a Dylunio

Bydd y rôl o ddydd i ddydd yn amrywiol ac yn adlewyrchu'r anghenion dyddiol amrywiol yn y gwasanaethau delweddu i sicrhau gofal sy'n canolbwyntio ar y claf, a fydd yn gofyn am ddull rhagweithiol o gynllunio ac amserlennu tasgau unigol. Bydd gan ddeiliad y swydd wybodaeth am weithdrefnau gweithio o fewn dulliau delweddu a'r paratodau cleifion gofynnol, gan gadarnhau gofynion gyda staff uwch i'w galluogi i gynllunio ac amserlennu dyletswyddau. Bydd yr SRCSW yn gweithio ochr yn ochr â staff cofrestredig, gan gydlynu ag eraill i gynllunio ac addasu amserlenni ar gyfer atgyfeiriadau brys ac mewn argyfwng a disgwylir iddo ymgymryd â thasgau sefydliadol mwy heriol megis trefnu archwiliadau, trosglwyddo delweddu yn electronig, a chael delweddu a chanlyniadau blaenorol, gan dynnu sylw uwch staff at unrhyw broblemau posibl.

Clinigol

Bydd yr SRCSW yn cefnogi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a staff trwy gydol archwiliadau a gweithdrefnau delweddu.

Cyfarch cleifion, cynnal gwiriadau adnabod cychwynnol a holiaduron diogelwch MRI a thynnu sylw uwch staff at unrhyw faterion neu anghysondebau; casglu, cyfeirio, cludo a hebrwng cleifion i/o ystafelloedd archwilio a'r adran; cynorthwyo i drosglwyddo a lleoli cleifion gan ddefnyddio technegau a chymhorthion codi a chario yn ôl yr angen.

Gwarchod a darparu gofal i gleifion sy'n cael archwiliadau personol, gan sicrhau bod urddas a chyfrinachedd yn cael eu cynnal bob amser.

Gosod a thynnu canwlâu mewnwythiennol, a fflysio â dyfeisiau halwynog wedi'u llenwi ymlaen llaw

Paratoi a rhoi sylweddu cyferbyniad trwy'r geg/meddyginiaethau ar gyfer amrywiaeth o archwiliadau ar ôl iddynt gael eu cyflenwi gan staff cofrestredig ac yn unol â gofynion cyfreithiol a fferyllol a gweithredu fel ail wiriwr pan fo'r rhain i'w rhoi gan ymarferydd cofrestredig.

Paratoi offer ar gyfer rhoi meddyginiaethau mewnwythiennol/cyferbyniad gan staff cofrestredig pan mae mecanweithiau cyfreithiol yn caniatáu hynny

Deall ystod o derminoleg feddygol ac anatomegol i osod y claf yn yr ystum cychwynnol ar gyfer ystod o weithdrefnau delweddu/cynorthwyo staff cofrestredig i drosglwyddo a gosod cleifion gan ddefnyddio cymhorthion codi a chario lle bo angen

Gan weithio ochr yn ochr â staff cofrestredig uwch ac o dan eu cyfarwyddyd, cynorthwyo gyda thechnegau aseptic ac archwiliadau fel allsugnadau gyda nodwydd fân, biopsïau TRUS, pigiadau cyhyrysgerbydol

Lleoli a thynnu'r tiwbiau rhesrol sydd eu hangen ar gyfer archwiliadau CT o'r coluddyn mawr

Paratoi offer ar gyfer lleoliad troli cymhleth, cynorthwyo staff i osod yr ardal aseptic, clirio troliâu ac offer ar ôl triniaethau, gwaredu ar becynnu/offer a lleiniau a ddefnyddiwyd ar gyfer dihalogi, trin/cludo/gwaredu sbesimenau a hylifau corfforol a sicrhau y cynhelir amgylchedd glân.

Dethol rhagarweiniol o goiliau MRI priodol a chymhorthion llonyddu y gall fod eu hangen ar draws ystod o ddulliau delweddu

Gweithio heb oruchwyliaeth i fonitro a chofnodi arsylwadau a chyflwr cleifion a rhoi adborth rheolaidd arnynt i staff goruchwyllo, e.e. pwysedd gwaed a gwiriadau dirlawnder ocsigen

Deall cymhlethdodau cyffredin y gweithdrefnau sy'n cael eu cyflawni, gan adnabod arwyddion cleifion sy'n gwaethygu a chleifion sy'n ymateb i sylweddu cyferbyniad, cymryd camau priodol ar unwaith a chyfeirio at uwch staff/defnyddio gweithdrefnau adrannol i gael cymorth brys ac mewn argyfwng

Deall hanfodion ystod o gyflyrau meddygol, gan addasu dyletswyddau unigol i adlewyrchu'r effaith y gallai'r rhain ei chael ar y claf, ymarfer clinigol a gofynion delweddu

Rhoi sylw i anghenion hylendid cleifion a chynorthwyo gyda gofynion gwisgo/dadwisgo a thoiled
Arddangos ymwybyddiaeth o ymbelydredd a diogelwch MRI, gan sicrhau diogelwch ei hun a chefnogi staff i sicrhau diogelwch eraill

Cyfathrebu

Cyfathrebu'n rheolaidd â thîm amlddisgyblaethol i gyfrannu at redeg gwasanaethau radioleg yn effeithlon, gan gynnwys cysylltu â chleifion, wardiau ac adrannau eraill wyneb yn wyneb a thros y ffôn i drefnu archwiliadau a threfnu unrhyw baratodau angenrheidiol fel y nodir gan uwch staff.

Darparu gwybodaeth ffeithiol am archwiliadau i gleifion, cyn, yn ystod ac ar ôl gweithdrefnau, gan sicrhau bod cleifion a staff yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw oedi annisgwyl

Defnyddio amrywiaeth o dechnegau cyfathrebu ar lafar a dieiriau i gyfathrebu'n effeithiol â chymheiriaid, cydweithwyr, aelodau o'r tîm amlddisgyblaethol, cleifion, gofawyr ac ymwelwyr a goresgyn rhwystrau cyfathrebu, h.y. gwahaniaethau diwylliannol, rhwystrau iaith, nam ar y synhwyrâu neu anawsterau ffisiolegol.

Ymateb yn briodol i ymholiadau arferol, cymryd negeseuon ffôn ac wyneb yn wyneb a throsglwyddo gwybodaeth ysgrifenedig a llafar gywir i gleifion a staff mewn modd amserol.

Meddu ar sgiliau a gwybodaeth i gefnogi datrys gwrthdaro a chwynion llafar.

Anghlinigol

Glanhau amrywiaeth o offer meddygol/delweddu ac ardaloedd clinigol, gan gadw at weithdrefnau a phrosesau dihalogi

Defnyddio adnoddau'n effeithiol trwy ddefnyddio stoc yn nhrefn dyddiadau a chynnal lefelau priodol, gan adrodd neu archebu cyflenwadau yn ôl yr angen.

Paratoi, glanhau, symud a chynnal amrywiaeth o offer delweddu a meddygol.

Gallu adnabod pryderon diogelu a chychwyn gweithdrefnau lle bo'n briodol ac o dan gyfarwyddyd staff cofrestredig

Gweithio ar eich pen eich hun mewn lleoliad penodol sy'n berthnasol i'w rôl a'i brofiad, dan oruchwyliaeth anuniongyrchol (h.y. dros y ffôn).

Ymgymryd â gwiriadau Sicrhau Ansawdd archwiliadau rheoli/sicrhau ansawdd diffiniedig ar offer gan weithio i weithdrefnau a phrotocolau penodol yn unol â'u maes gwaith a hyfforddiant.

Cefnogi a chymryd rhan mewn prosesau archwilio adrannol, naill ai'n unigol neu fel rhan o dîm i gefnogi gwelliannau i wasanaethau.

Gweithio'n effeithiol fel rhan o dîm ac yn unigol o fewn gweithdrefnau gweithredu safonol adrannol, gallu blaenoriaethu eich llwyth gwaith eich hun, cyflawni tasgau dirprwyedig a chefnogi cydweithwyr.

Ymrwymo i ddarparu gwasanaeth y tu allan i oriau, sifftiau, a gweithio ar draws safleoedd yn ôl yr angen er mwyn sicrhau y cynhelir darpariaeth gwasanaethau.

Cynnal agwedd hyblyg at y rôl, gan ddeall y gall newid mewn gofynion clinigol arwain at wahanol ddyletswyddau i'w cyflawni.

Ymgymryd â dysgu a hyfforddiant ychwanegol i gefnogi rolau clinigol ychwanegol yn ôl yr angen i hwyluso datblygiad a gwelliant parhaus y gwasanaeth

Digidol a Gwybodaeth

Defnyddio amrywiaeth o raglenni meddalwedd megis Systemau Gwybodeg Radioleg (RIS), System Archifo Llundain a Chyfathrebu (PACS), a Phorth Clinigol Cymru i hwyluso gwasanaeth radioleg effeithlon a chyfrannu at gynnal cofnodion cleifion cywir

O dan gyfarwyddyd staff cofrestredig, amserlennu, archebu ac addasu archwiliadau gan ddefnyddio systemau electronig
Ar gais staff cofrestredig, dod o hyd i ganlyniadau/cofnodion blaenorol delweddu a pherfformio trosglwyddiad electronig o ddelweddau ac archwiliadau i ysbytai/asiantaethau adrodd allanol eraill
Cofnodi manylion cleifion, archwiliadau a thriniaethau yn gywir (h.y. ymbelydredd, y cynnyrch fferyllol a ddefnyddiwyd, manylion am y gweithredwr/adroddwr) gan ddefnyddio systemau electronig, gan sicrhau bod yr holl ddogfennau gofynnol yn cael eu sganio a defnyddio systemau cofnodi papur lle/pan fo angen
Nodi cofnodion dyblyg posibl, hysbysu uwch gydweithwyr i sicrhau bod materion yn cael eu hunioni a bod cofnodion radioleg yn gywir ac yn gyflawn
Agor, dosbarthu ac anfon post (yn ffisegol ac electronig) yn ôl yr angen, gan sicrhau bod gwybodaeth am geisiadau delweddu yn cael ei chofnodi'n gywir yn y Systemau Gwybodaeth Radioleg a thynnu sylw uwch staff at unrhyw anghysondebau

Cyllid a Chyllideb

Hwyluso defnydd effeithiol o adnoddau trwy ddefnyddio stoc yn nhrefn dyddiadau a chynnal lefelau priodol, gan adrodd neu archebu cyflenwadau yn ôl yr angen.

Rheoli, Arwain a/neu Hyfforddi

Cefnogi sefydlu a hyfforddi RCSWs sydd newydd eu cyflogi trwy arddangos ei ddyletswyddau a'i rôl ei hunan.

MANYLEB Y PERSON

Cymwysterau a Gwybodaeth

Hanfodol

Cymhwyster Lefel 3 mewn pwnc gofal iechyd perthnasol, neu feddu ar y sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad cyfatebol ac ymrwymiad i ymgymryd â hyfforddiant yn y swydd hyd at achrediad NVQ Lefel 3.
Dealltwriaeth o rôl gweithwyr cymorth radiograffeg

Dymunol

Gwybodaeth sylfaenol am anatomeg a ffisioleg
Gwybodaeth am waith clinigol

Profiad

Hanfodol

Profiad blaenorol o weithio gyda'r cyhoedd mewn rolau cyflogedig neu wirfoddol
Profiad o ddefnyddio cyfrifiaduron

Dymunol

Profiad mewn rôl gefnogol/cynorthwyol fel Gweithiwr Cymorth Radioleg neu Weithiwr Cymorth Gofal Iechyd (HCSW) neu brofiad o weithio mewn ysbyty/amgylchedd gofalu

Profiad mewn ystod o sgiliau clinigol gan gynnwys technegau aseptig

Sgiliau a Phriodoleddau

Sgiliau cyfathrebu da ar lafar ac yn ysgrifenedig

Yn gallu dangos agwedd gadarnhaol, ofalgar a thosturiol

Yn gallu delio â sefyllfaoedd a all peri gofid.

Yn gweithio'n dda fel unigolyn ac fel rhan o dîm a sgiliau trefnu a rheoli amser da

Yn frwdfrydig a meddu ar agwedd anfeirniadol tuag at eraill.

Yn fodlon chwilio am gyfleodd dysgu, derbyn cyfarwyddyd a rhoi/derbyn adborth adeiladol

Mae Sgiliau Cymraeg yn ddymunol ar lefelau 1 o ran deall, siarad, darllen ac ysgrifennu (dilêwch fel y bo'n briodol)

Arall

Cliriad Boddhaol Safonol/Manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gan gynnwys gwiriad Rhestr Waharddedig Oedolion/Plant

Yn gallu symud a thrin offer a chynorthwyo gyda chodi a chario cleifion